Elin Jones AC, y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

10 Rhagfyr 2019

Annwyl Lywydd,

**Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 2 Rhagfyr i drafod amrywiaetth a chapasiti yn y Cynulliad. Yn dilyn y cyfarfod, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ddarparu gwybodaeth am y materion a ganlyn:

***Capasiti'r Cynulliad***

Bydd maint y Cynulliad yn aros yr un fath tan 2026 ar y cynharaf, ac felly mae'r Pwyllgor yn edrych ar gamau dros dro posibl i fynd i'r afael â'r problemau capasiti a wynebir gan yr Aelodau mewn Cynulliad 60 Aelod. Yn hyn o beth, byddem yn croesawu cael rhagor o wybodaeth ynghylch a oes unrhyw enghreifftiau o ddeddfwrfeydd datganoledig sydd â threfniadau ar gyfer gweithio ar y cyd â chynghorwyr, arweinwyr cynghorau neu Aelodau Seneddol fel rhan o'u busnes seneddol ffurfiol, ac a allai trefniadau o'r fath fod yn briodol ar gyfer Cymru.

Yn ystod y sesiwn, gwnaethoch gynnig darparu rhagor o wybodaeth am hyd amseroedd eistedd y Cyfarfod Llawn wrth i gyfrifoldebau'r Cynulliad ddatblygu. Yn ogystal â'r wybodaeth hon, byddem hefyd yn croesawu cael gwybodaeth am nifer yr wythnosau eistedd, unrhyw ystyriaeth a roddir gan y Pwyllgor Busnes i fynd i'r afael â chapasiti drwy gynyddu wythnosau neu amseroedd eistedd y Cynulliad, a'ch asesiad o unrhyw oblygiadau y byddai cynnydd o'r fath yn eu cael ar arfer rolau a chyfrifoldebau eraill yr Aelodau.

Fe wnaeth y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad gynnwys asesiad cychwynnol, yn ei adroddiad, o'r costau i Gomisiwn y Cynulliad sy'n gysylltiedig â

chynnydd yn nifer yr Aelodau Cynulliad. Argymhellodd y dylid cadw'r costau hyn mor isel â phosibl. Yn ystod y sesiwn, gwnaethoch gytuno i ddarparu amcangyfrifon wedi'u diweddaru o'r costau sy'n dod o fewn cylch gwaith cyllideb Comisiwn y Cynulliad. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech sicrhau bod yr amcangyfrifon hyn yn cynnwys ystyried:

- unrhyw gostau trosiannol, gan gynnwys unrhyw wariant cyfalaf; a
- chostau parhaus blynyddol ar gyfer blwyddyn nodweddiadol pan gynhelir etholiad a blwyddyn nodweddiadol pan na chynhelir etholiad.

A wnewch roi dadansoddiad o'r ffigurau, yn gostau staff Comisiwn y Cynulliad, costau eraill Comisiwn y Cynulliad, cyflogau'r Aelodau, a chostau eraill sy'n gysylltiedig â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau.

Ochr yn ochr â'r costau, amlinellwch unrhyw ragdybiaethau sylfaenol a wnaed wrth gyfrifo'r amcangyfrifon hynny, p'un a yw'r costau'n ddewisol neu'n sefydlog, pwy fydd yn gyfrifol am wneud y penderfyniadau perthnasol, a sut y gellid effeithio ar unrhyw amcangyfrifon gan benderfyniadau sydd i'w gwneud gan Gomisiwn neu gan Bwyllgor Busnes yn y dyfodol o ran trefnu busnes y Cynulliad neu wasanaethau cymorth.

**Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb ar y materion hyn erbyn dydd Llun 27 Ionawr 2020.**

Hefyd, rydych wedi cytuno i fod yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor eto yn nhymor yr haf mewn cysylltiad â gwaith y Pwyllgor ar systemau a ffiniau etholiadol, ac i fyfyrio ar y dystiolaeth a dderbynia'r Pwyllgor yn ystod ein gwaith ar gapasiti ac amrywiaeth yn y Cynulliad. Cyn y sesiwn hon, byddai'r Aelodau'n croesawu cael rhagor o fanylion am y camau y gallai Comisiwn y Cynulliad a'r Pwyllgor Busnes eu hystyried ar gyfer y Pumed a'r Chweched Cynulliad er mwyn cynyddu capasiti'r Cynulliad.

***Amrywiaeth yn y Cynulliad***

Gwnaethoch nodi nad yw'n glir a fyddai mesurau deddfwriaethol i annog ethol Cynulliad mwy amrywiol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ai peidio. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael rhagor o wybodaeth am sut y gallai camau i annog amrywiaeth, er enghraifft, gofynion data amrywiaeth anhysbys o ran ymgeiswyr, neu gwotâu ymgeiswyr deddfwriaethol, gael eu fframio er mwyn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad, y cymalau cadw a allai fod yn berthnasol, a'r dadleuon a allai gael eu datblygu er mwyn i gamau o'r fath fod o fewn cymhwysedd.

Roedd Argymhelliad 22 yn yr **adroddiad ar Amrywiaeth ym maes Llywodraeth Leol** gan y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn galw ar i Lywodraeth Cymru:

*… asesu effeithiolrwydd y darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 o ran casglu data, ac mewn perthynas â data eraill am ymgeiswyr y gellid eu casglu o fewn y fframwaith datganoli presennol.*

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu clywed eich barn ar y graddau y mae'r fframwaith datganoli presennol yn galluogi casglu data ymgeiswyr yn etholiadau'r Cynulliad, ac unrhyw gamau y gallai Comisiwn y Cynulliad, neu eraill, eu cymryd yn hyn o beth heb fod angen rhagor o ddeddfwriaeth.

**Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb ar y materion hyn erbyn dydd Gwener, 17 Ionawr 2020.**

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar yr uchod ymhellach, cysylltwch â'r clerc, Helen Finlayson, drwy e-bostio **SeneddDiwygio@Cynulliad.Cymru** neu ffoniwch 0300 200 6341.

Yn gywir,



**Dawn Bowden AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.